General Pharmaceutical Council

# Ymgynghoriad ar sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant fferyllol

Ebrill 2024

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (heblaw am y logo a'r brandio) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyn belled â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir a heb fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod mai gan y Cyngor Fferyllol Cyffredinol y mae'r hawlfraint a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os ydych wedi dyfynnu deunydd gan drydydd partner rhaid i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint.

Cysylltwch â ni ar **communications@pharmacyregulation.org** os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat arall (mewn print mwy, er enghraifft, neu mewn iaith arall).

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2024

# Cynnwys


**Ynghylch y CFfC** ..... **4**

**Rhagair** ..... **5**

**Y broses ymgynghori** ..... **7**

**Manylion am y cynigion a'r cyd-destun** ..... **9**

**Ein pedwar cynnig** ..... **14**

1. **Monitro blynyddol** ..... **14**
2. **Ymyrryd, uwchgyfeirio a gwneud penderfyniadau** ..... **20**
3. **Mwy o hyblygrwydd ar gyfer cymeradwyo ac ymyrryd** ..... **21**
4. **Cymhwyso ein prosesau i holl addysg a hyfforddiant fferyllol** ..... **24**

**Beth ydym ni'n disgwyl fydd manteision y newidiadau?** ..... **24**

**Pryd fydd y newidiadau'n digwydd?** ..... **24**

**Cwestiynau'r ymgynghoriad** ..... **26**

# Ynghylch y CFfC

## Pwy ydyn ni

Ni sy'n rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd ym Mhrydain.

Rydyn ni'n gweithio i roi sicrwydd ynghylch safonau gofal ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol, a gwella'r safonau hynny.

## Yr hyn a wnawn

Ein rôl yw diogelu'r cyhoedd a rhoi sicrwydd iddyn nhw y byddan nhw'n derbyn gofal diogel ac effeithiol wrth ddefnyddio gwasanaethau fferyllol.

Rydyn ni'n gosod safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol a fferyllfeydd er mwyn iddyn nhw gael eu derbyn ar ein cofrestr, ac aros arni.

Rydyn ni'n gofyn i weithwyr fferyllol proffesiynol a fferyllfeydd am dystiolaeth eu bod yn parhau i gyrraedd ein safonau, ac mae hyn yn cynnwys arolygu fferyllfeydd.

Rydyn ni'n gweithredu i ddiogelu'r cyhoedd a chynnal ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth pan fo pryderon am weithiwr fferyllol proffesiynol neu fferyllfa ar ein cofrestr.

Drwy ein gwaith, rydyn ni'n helpu i hybu proffesiynoldeb, yn cefnogi gwelliant parhaus ac yn sicrhau ansawdd a diogelwch fferylliaeth.

# Rhagair

## Cefndir

Fel rheoleiddiwr fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig, mae'r CFfC yn gosod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant. Rhaid i'r CFfC hefyd fod yn sicr bod y safonau hyn yn cael eu cyrraedd. Gwnawn hyn drwy sicrhau ansawdd darparwyr addysg a hyfforddiant yn erbyn ein safonau, a chymeradwyo'r darparwyr sy'n eu cyrraedd.

Ar hyn o bryd, y brif ffordd rydyn ni'n sicrhau ansawdd (SA) addysg a hyfforddiant yw drwy 'ddigwyddiadau cymeradwyo' rheolaidd. Rydyn ni'n penodi tîm Cymeradwyo o'n panel Achredu a Chydnabod i adolygu tystiolaeth ddogfennol, a chyflwyniad gan y darparwr. Rydyn ni'n gwneud hyn bob tair blynedd gyda darparwyr penodol.

Bu rhai newidiadau sylweddol mewn addysg a hyfforddiant fferyllol dros y blynyddoedd diwethaf sy'n effeithio ar ei strwythur a'r hyn a ddisgwylir. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys:

- safonau newydd ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr (2021)
- cyflwyno blwyddyn hyfforddiant sylfaen, i'w hachredu gan y CFfC, i ddisodli hyfforddiant fferyllol cyn-gofrestru (2025)
- safonau addysg a hyfforddiant newydd ar gyfer fferyllwyr presgripsiynu annibynnol (2022)
- safonau newydd ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol technegwyr fferyllol (2021)

gofynion newydd ar gyfer addysg a hyfforddiant staff cymorth fferyllol (2020)

Dros amser, rydyn ni wedi gwella'r ffordd rydyn ni'n SA addysg a hyfforddiant fferyllol, gan ystyried arfer gorau mewn SA a sut mae ein safonau wedi esblygu. Ers 2011, rydyn ni wedi gwella naws digwyddiadau cymeradwyo a'r ffordd rydyn ni'n gweithio gyda darparwyr yn ystod y digwyddiadau hyn. Mae hyn yn golygu bod darparwyr yn gliriach ynghylch yr hyn rydyn ni'n ei ddisgwyl ganddynt ac o ran sut caiff digwyddiadau eu cynnal. Rydyn ni hefyd wedi adolygu'r ffordd rydyn ni'n gweithio gyda darparwyr i gael eu cyflwyniad cymeradwyo.  Er enghraifft:

- Cyn y digwyddiad cymeradwyo, byddwn yn dweud wrth y darparwr pa ddeilliannau dysgu rydyn ni'n mynd i'w hadolygu.
- Rydyn ni wedi cynhyrchu templedi cyflwyno ar gyfer digwyddiadau, fel nad oes rhaid i ddarparwyr roi'r un wybodaeth i ni fwy nag unwaith.
- Rydyn ni'n casglu mwy o ddata cyn y digwyddiad, ac ers 2022 mae hyn yn cynnwys data o raglenni presgripsiynu annibynnol.

Rydyn ni am adeiladu ar y datblygiadau hyn i sicrhau bod ein prosesau SA yn addas ar gyfer yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir, ac sy'n datblygu'n gyflym, ac i sicrhau ein bod yn gallu gweithredu'n gyflym os oes tanberfformio. Byddai hyn yn cefnogi dau o'n hamcanion strategol:

- ysgogi gwelliannau mewn gofal fferyllol drwy foderneiddio'r ffordd rydyn ni'n rheoleiddio addysg a hyfforddiant
- symud y cydbwysedd tuag at ddulliau rheoleiddio fferylliaeth sy'n fwy rhagweledol a chymesur ac sydd wedi'u teilwra

Byddai hyn hefyd yn cefnogi 'Safonau Rheoleiddio Da' yr Asiantaeth Safonau Proffesiynol, yn fwy penodol Safon 9:

*Mae gan y rheoleiddiwr fecanwaith cymesur a thryloyw ar gyfer ei fodloni ei hun bod y darparwyr a'r rhaglenni addysg y mae'n eu goruchwylio yn darparu myfyrwyr a hyfforddeion sy'n ateb gofynion cofrestru'r rheoleiddiwr, ac yn gweithredu lle mae ei weithgareddau sicrwydd yn nodi pryderon naill ai am hyfforddiant neu bryderon ehangach am ddiogelwch cleifion.*

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ffocysu ar bedair agwedd benodol ar y prosesau a ddefnyddiwn i sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant fferyllol. Rydyn ni'n cynnig:

- cyflwyno monitro blynyddol gyda mwy o ddefnydd o ddata a gasglwn cyn y digwyddiad cymeradwyo
- diffinio llinellau cyfrifoldeb clir a meini prawf ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylid ailgymeradwyo ai peidio
- mabwysiadu proses gymeradwyo ac ymyrryd fwy hyblyg
- sicrhau mwy o graffu ar addysg a hyfforddiant, wrth gymhwyso ein prosesau SA at holl addysg a hyfforddiant fferyllol

Drwy'r ymgynghoriad hwn, rydyn ni'n gofyn am eich barn ar y newidiadau arfaethedig.

# Y broses ymgynghori

**Bydd yr ymgynghoriad yn para 10 wythnos a bydd yn dod i ben  ar 13 Mehefin 2024.**

Yn ystod y cyfnod hwn, rydyn ni'n croesawu adborth gan unigolion a sefydliadau.  Byddwn yn anfon y ddogfen hon at amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys darparwyr addysg a hyfforddiant fferyllol, gweithwyr fferyllol proffesiynol, perchnogion fferyllfeydd, cyrff sy'n cynrychioli cleifion, ac eraill sydd â diddordeb yn y maes hwn.

Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn crynhoi'r hyn a glywom.

## Ein hadroddiad ar yr ymgynghoriad hwn

Wedi i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, byddwn yn dadansoddi'r ymatebion a ddaeth i law ac yn ystyried unrhyw newidiadau angenrheidiol.

Bydd ein Cyngor llywodraethu yn cael y dadansoddiad mewn cyfarfod yn ail hanner 2024 a bydd yn ystyried yr ymatebion wrth gymeradwyo'r prosesau sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant fferyllol newydd.

Byddwn yn cyhoeddi dadansoddiad o'r ymatebion ac esboniad o'r penderfyniadau a wnawn.  Byddwch yn gallu gweld y rhain ar ein gwefan **www.pharmacyregulation.org**.

## Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy fynd i **pharmacyregulation.org/consultation-quality-assurance-pharmacy-education-and-training** a llenwi'r holiadur ar-lein yno.

Rydyn ni'n annog pawb i ddefnyddio'r holiadur ar-lein. Fodd bynnag, os ydych yn dymuno anfon ymateb drwy e-bost, ysgrifennwch eich ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad a'i anfon i ni ar **consultations@pharmacyregulation.org**

### Fformatau eraill

Cysylltwch â ni ar **communications@pharmacyregulation.org** os hoffech gopi o holiadur yr ymgynghoriad mewn fformat arall (mewn print mwy, er enghraifft, neu mewn iaith arall).

### Sylwadau ar y broses ymgynghori ei hun

Os oes gennych bryderon am y broses ymgynghori ei hun, neu sylwadau arni, anfonwch nhw i:

**feedback@pharmacyregulation.org**

neu gallwch eu postio i'r:

**Tîm Llywodraethu**
**Cyngor Fferyllol Cyffredinol**
**Lefel 14, Un Sgwâr Cabot**
**Llundain**
**E14 4QJ**

Peidiwch ag anfon ymatebion i'r ymgynghoriad i'r cyfeiriad hwn.

## Pam rydyn ni'n ymgynghori

Dan Orchymyn Fferylliaeth 2010, mae'n ofynnol i ni ymgynghori cyn i ni bennu unrhyw safonau neu ofynion. Byddwn hefyd yn ymgynghori lle bo angen i sicrhau ein bod yn arfer ein swyddogaethau statudol yn effeithiol ac yn gymesur er mwyn cyflawni ein prif amcan, sef diogelu'r cyhoedd.

## Ymateb i'r ymgynghoriad

### Sut rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth

Byddwn yn defnyddio'ch ymateb i'n helpu i ddatblygu ein gwaith. Gofynnwn i chi roi rhywfaint o wybodaeth gefndir i ni amdanoch chi ac, os byddwch yn ymateb ar ran sefydliad, eich sefydliad. Rydyn ni'n defnyddio hyn i'n helpu i ddadansoddi effaith bosibl ein cynlluniau ar wahanol grwpiau. Rydyn ni wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb, gwerthfawrogi amrywiaeth a bod yn gynhwysol yn ein holl waith fel rheoleiddiwr proffesiynau iechyd, ac i sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau o ran cydraddoldeb. Mae ffurflen monitro cydraddoldeb ar ddiwedd yr arolwg. Nid oes rhaid ichi ei llenwi, ond os gwnewch hynny, bydd yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i ni i sicrhau bod hyn yn digwydd.

### Sut rydyn ni'n rhannu'ch gwybodaeth

Os byddwch yn ymateb fel unigolyn preifat, ni fyddwn yn defnyddio'ch enw nac yn cyhoeddi'ch ymateb unigol. Os byddwch yn ymateb ar ran sefydliad, byddwn yn nodi enw eich sefydliad a gallem gyhoeddi eich ymateb yn llawn, oni ddywedwch wrthym i beidio. Os ydych am i ran o'ch ymateb aros yn gyfrinachol, dylech esbonio pam y credwch fod y wybodaeth rydych wedi ei rhoi yn gyfrinachol.

Efallai y bydd angen i ni ddatgelu gwybodaeth dan gyfreithiau'n ymwneud â mynediad at wybodaeth (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 fel arfer). Os byddwch yn gofyn i ni gadw rhan o'ch ymateb, neu eich ymateb cyfan, yn gyfrinachol, byddwn yn trafod y cais o ddifri' ac yn ceisio'i barchu. Ond ni allwn warantu y gellir cynnal cyfrinachedd o dan bob amgylchiad.

Os byddwch yn e-bostio ymateb i'r ymgynghoriad ag ymwadiad cyfrinachedd awtomataidd gan eich system TG ynghlwm wrtho, ni fydd hyn, ynddo'i hun, yn rhwymol ar y CFfC.

### Eich hawliau

Dan y gyfraith diogelu data, gallwch ofyn am gopi o'ch ymateb i'r ymgynghoriad hwn neu wybodaeth arall sydd gennym amdanoch chi. Gallwch hefyd ofyn i ni ddileu eich ymateb. I gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau a gyda phwy y dylech gysylltu, darllenwch ein polisi preifatrwydd ar ein gwefan.

# Manylion am y cynigion a'r cyd-destun

## Pam mae'n rhaid i ni sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant fferyllol

Mae Gorchymyn Fferylliaeth 2010 yn disgrifio ein rôl yn pennu safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol, a chymeradwyo'u cymwysterau a'u hyfforddiant Nod hyn yw ein sicrhau:

- bod addysg a hyfforddiant fferyllol yn digwydd yn ddiogel i bawb sy'n gysylltiedig â nhw
- y gall cleifion a'r cyhoedd fod yn ffyddiog bod fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol sy'n ymuno â'r gofrestr yn fedrus ac yn wybodus, a'u bod yn dangos ymddygiadau proffesiynol priodol o ganlyniad i'w haddysg a'u hyfforddiant, ac
- y cynhelir addysg a hyfforddiant fferyllol mewn ffordd sy'n deg, ac sy'n rhoi profiad cadarnhaol i fyfyrwyr a hyfforddeion

Rydyn ni'n cymeradwyo darpariaethau addysg a hyfforddiant sydd wedi cael sicrwydd ansawdd drwy gyfrwng ein prosesau cymeradwyo ac sydd wedi cyrraedd ein safonau'n llawn.

## Pam rydyn ni'n adolygu ein dull sicrhau ansawdd

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydyn ni wedi gwneud nifer o newidiadau a gwelliannau'n unol â'r adborth rydyn ni wedi'i dderbyn a'r ffordd mae hyfforddiant fferyllol wedi esblygu. Ond nid ydym wedi newid ein prif brosesau SA ers i'r CFfC gael ei ffurfio. Mae'n bwysig ein bod yn adolygu ein prosesau SA oherwydd:

### 1. Rydyn ni'n cynhyrchu safonau newydd

Rydyn ni wedi adolygu, neu wrthi'n adolygu, ein holl safonau a gofynion ar gyfer addysg a hyfforddiant fferyllol. Bydd y safonau a'r gofynion newydd yn arwain at newidiadau sylweddol i addysg a hyfforddiant fferyllol. Ar gyfer fferyllwyr, mae hyn yn cynnwys cyflwyno deilliannau dysgu sydd wedi'u cynllunio i roi'r sgiliau, y wybodaeth a'r priodoleddau sydd eu hangen i bresgripisynu'n annibynnol wedi iddynt ymuno â'r gofrestr.

Ar gyfer technegwyr fferyllol, byddwn yn dechrau adolygu eu safonau addysg a hyfforddiant cychwynnol eleni i sicrhau eu bod yn arfogi technegwyr fferyllol ar gyfer y rolau a'r cyfrifoldebau cynyddol amrywiol sydd ganddynt.

Felly, mae'n rhaid i ni sicrhau bod y prosesau a ddefnyddiwn i wirio ansawdd addysg a hyfforddiant fferyllol yn parhau i roi lefel gadarn, uchel o sicrwydd sy'n briodol i'r safonau newydd.

### 2. Rhaid i'n prosesau SA fod yn gyfredol ac yn addas i'r diben

Rydyn ni am sicrhau ein bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn y ffordd rydyn ni'n deall sicrwydd ansawdd ac yn cymhwyso prosesau SA i addysg a hyfforddiant, a sicrhau bod ein prosesau'n parhau i fod yn addas i'r diben. Rydyn ni wedi cynnal adolygiad o'r prosesau SA a ddefnyddir gan reoleiddwyr gofal iechyd eraill a gallwn weld y gallai fod manteision i ni wrth fabwysiadu prosesau tebyg i'r rhai y maen nhw'n eu defnyddio. Er enghraifft, gallwn ddefnyddio ystod ehangach o

ddata i'n helpu i gyflawni ein sicrwydd ansawdd a'n monitro o fewn addysg a hyfforddiant.

### 3. Mae angen i ni ragweld pryderon a gweithredu mewn ffordd gymesur

Ar hyn o bryd, mae'r ffordd rydyn ni'n sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant wedi'i chysylltu'n gryf ag adegau amser penodol. Mae'r 'adegau amser penodol' hyn yn rhoi manteision pwysig i ni, megis sicrhau bod craffu rheolaidd ac eang ar yr holl ddarparwyr addysg a hyfforddiant yn erbyn ein safonau a hynny ar adegau penodol.

Mae'r adegau hyn yn bwysig, ond maen nhw'n golygu ein bod yn gwirio gyda darparwyr ddim ond unwaith bob tair blynedd. Yn ystod y cyfnod hwn, gall materion - fel perfformiad gwael yn yr asesiad cofrestru - godi a gallant ddatblygu'n bethau a all beri gofid difrifol o dan ein safonau. Gallent hyd yn oed gyfaddawdu ansawdd y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant. Mae ein prosesau presennol wedi cyfyngu ar ein gallu i adnabod neu ragweld pryderon yn gynnar, neu i adolygu darparwyr yn gynnar o ganlyniad i bryderon a nodir. Drwy fonitro darpariaethau addysg a hyfforddiant rhwng digwyddiadau cymeradwyo, bydd gennym well syniad o berfformiad darparwyr rhwng digwyddiadau'r adolygiad. Mae hyn yn golygu y gallwn adnabod a delio â phryderon ar y cyd â'r darparwyr mewn ffordd fwy amserol, gymesur a systematig.

## Yr addysg a'r hyfforddiant rydyn ni'n eu sicrhau

Pan fyddwn yn derbyn sicrwydd bod darpariaeth addysg a hyfforddiant yn cyrraedd ein safonau, gallwn gymeradwyo'r ddarpariaeth honno. I gael y sicrwydd hwn, rydyn ni'n defnyddio'r ddwy broses gymeradwyo ganlynol:

**Achredu**

Yn y broses hon, rydyn ni'n sicrhau ansawdd yr holl brosesau sy'n ymwneud â rheoli a chyflwyno cwrs a rhaglen. Mae hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd neu fodloni safonau neu ofynion addysg a hyfforddiant perthnasol y CFfC.

**Cydnabod**

Y broses hon yw sut rydyn ni'n cymeradwyo cymwysterau cenedlaethol a ddarperir ym Mhrydain. Mae'r cymwysterau hyn yn dilyn gofynion Fframwaith Cymwysterau Rheoledig perthnasol a safonau galwedigaethol cenedlaethol cytunedig a/neu fframwaith cydnabyddedig. Nid ydym yn cymeradwyo'n uniongyrchol y darparwyr sy'n darparu'r cymwysterau ar ran y sefydliadau dyfarnu. Yn hytrach, rydyn ni'n cydnabod prosesau a pholisïau sicrhau ansawdd y sefydliadau dyfarnu a'u gallu i gyrraedd a bodloni safonau neu ofynion addysg a hyfforddiant perthnasol y CFfC.

.

## Rydyn ni’n achredu’r darpariaethau addysg a hyfforddiant canlynol:

- Graddau MPharm a Rhaglenni Asesu Fferyllwyr Tramor (OSPAP) sy'n rhan o'r llwybr addysg a hyfforddiant cychwynnol ar gyfer fferyllwyr
- rhaglenni hyfforddiant sylfaen a gynigir gan gyrff addysg statudol sy'n arwain at gymhwysedd i gofrestru fel fferyllydd (achredu ar waith o 2025/26)
- cyrsiau presgripsiynu annibynnol sy'n arwain at anodiadau ar ein cofrestr fel presgripsiynydd annibynnol
- cyrsiau technegwyr fferyllol a gynigir gan ddarparwyr preifat sy'n arwain at gofrestru fel technegydd fferyllol, a
- chyrsiau staff cymorth fferyllol a gynigir gan ddarparwyr preifat sy'n caniatáu i bobl sy'n gweithio mewn fferyllfeydd gyflawni ystod o weithgareddau i gyflenwi meddyginiaethau yn ddiogel i gleifion a'r cyhoedd ac i fodloni ein gofynion hyfforddi

## Rydyn ni’n cydnabod y darpariaethau addysg a hyfforddiant canlynol:

- cymwysterau gwybodaeth a chymhwysedd integredig sy'n arwain at gofrestru technegwyr fferyllol, a
- chymwysterau staff cymorth fferyllol a gynigir gan ddarparwyr preifat sy'n caniatáu i bobl sy'n gweithio mewn fferyllfeydd gyflawni ystod o weithgareddau i gyflenwi meddyginiaethau yn ddiogel i gleifion a'r cyhoedd ac i fodloni ein gofynion hyfforddi

Ar hyn o bryd, y brif ffordd rydyn ni’n sicrhau ansawdd (SA) darpariaeth addysg a hyfforddiant yw drwy 'ddigwyddiadau cymeradwyo' rheolaidd.  Rydyn ni’n penodi tîm Cymeradwyo o’n panel Achredu a Chydnabod i adolygu tystiolaeth ddogfennol, a chyflwyniad gan y darparwr.  (Mae'r panel yn cynnwys gweithwyr proffesiynol sydd â gwybodaeth arbenigol ym maes fferylliaeth. Mae'n cynnwys fferyllwyr, technegwyr fferyllol ac academyddion, yn ogystal ag aelodau lleyg.)  Dilynir hyn gan y digwyddiad cymeradwyo sy'n cynnwys cyfarfodydd gyda staff a myfyrwyr o bell neu ar y safle i gael sicrwydd bod ein safonau a'n gofynion yn cael eu cyrraedd a’u bodloni, ac yn parhau i gael eu bodloni. Ar sail eu canfyddiadau, mae'r tîm Cymeradwyo yn cytuno ar argymhelliad i Gofrestrydd y CFfC a ddylid cymeradwyo'r ddarpariaeth ai peidio. Gall y gymeradwyaeth hon fod yn ddarostyngedig i amodau, argymhellion, a/neu fân newidiadau i'r ddarpariaeth.

Rydyn ni’n cynnal digwyddiad bob tair blynedd. Ar gyfer peth o’r ddarpariaeth, mae'r digwyddiad hwn yn un 'ailgymeradwyo’. I eraill, mae'r digwyddiad ailgymeradwyo yn digwydd bob chwe blynedd – ond mae digwyddiad 'interim' ar ôl tair blynedd, fel gwiriad sicrwydd.

## Ebrill 2024

### Ffigur 1: Ein proses cymeradwyo sicrwydd ansawdd bresennol (cylch tair blynedd)




### Ffigur 2: Ein digwyddiadau cymeradwyo sicrwydd ansawdd presennol ar gyfer graddau MPharm, a chymwysterau cenedlaethol technegwyr fferyllol a staff cymorth (cylch tair blynedd)



**Ffigur 3: Ein digwyddiadau cymeradwyo sicrwydd ansawdd presennol ar gyfer OSPAP, presgripsiynu annibynnol, a chyrsiau technegwyr fferyllol a staff cymorth (cylch tair blynedd)**




## Dull diwygiedig o sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant fferyllol

Rydyn ni'n sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant fferyllol i sicrhau bod fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol sy'n ymuno â'r gofrestr yn meddu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen i ddarparu'r gofal diogel ac effeithiol y mae cleifion a'r cyhoedd yn ei ddisgwyl.

Mae angen i'n prosesau sicrhau bod pob darpariaeth addysg a hyfforddiant cymeradwy yn bodloni ein safonau a'n gofynion.  Mae hyn yn cynnwys rhoi'r argymhellion i wella ansawdd a wneir gan y tîm Cymeradwyo ar waith.

Mae ein cynnig i adolygu ein dull SA addysg a hyfforddiant fferyllol yn rhan bwysig o'n cynllun strategol 2020–25, yn enwedig lle bydd hyn yn arwain at ddull wedi'i deilwra dan arweiniad deallusrwydd o gymeradwyo a sicrhau ansawdd.

Sylwer na fydd y cynigion hyn yn effeithio ar ein prosesau cymeradwyo cychwynnol i ddarpariaeth addysg a hyfforddiant.

# Ein pedwar cynnig

## 1. Monitro blynyddol

Mae'r cylch sefydlog presennol o ddigwyddiadau ailgymeradwyo ac interim yn rhoi cyfle cyfyngedig i ni adnabod a delio â phryderon yn gynnar. Gall hyn olygu nad yw myfyrwyr a hyfforddeion yn cael y cymorth neu'r arweiniad sydd eu hangen arnynt ar yr adeg pan fydd arnynt eu hangen fwyaf.

Rydyn ni'n casglu data myfyrwyr bob blwyddyn ar gyfer rhai rhaglenni, megis y rhaglenni MPharm a Phresgripsiynu Annibynnol. Ond nid ydym yn gwneud hyn eto ar gyfer yr holl ddarpariaeth addysg a hyfforddiant. Mae'r data a gawn - gan gynnwys y niferoedd sy'n cael eu derbyn, cyfraddau dilyniant a chwblhau, gwybodaeth monitro cydraddoldeb a phryderon addasrwydd i ymarfer myfyrwyr – yn ddefnyddiol ac yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i ni. Fodd bynnag, nid oes ganddo'r manylion sydd eu hangen arnon ni os ydyn ni am ddatblygu'r oruchwyliaeth barhaus rydyn ni am ei chael.

Felly, rydyn ni'n cynnig adeiladu ar y broses sydd gennym nawr, a chyflwyno monitro blynyddol mwy cynhwysfawr a strwythuredig. Bydd hyn yn ein helpu i adnabod a delio â phryderon yn gyflymach. Bydd hefyd yn helpu i roi sicrwydd i gleifion a'r cyhoedd bod darparwyr yn parhau i fodloni safonau a gofynion y CFfC ar gyfer addysg a hyfforddiant.

Mae'r darlun isod yn dangos sut olwg fyddai ar fonitro blynyddol:

## Ffigur 4: gwybodaeth monitro blynyddol




Rydyn ni am sicrhau bod ein sicrwydd ansawdd yn gymesur heb beryglu ansawdd a diogelwch addysg a hyfforddiant. I gyflawni hyn, rydyn ni'n cynnig adeiladu ar y prosesau casglu data blynyddol sydd gennym nawr, a'u hamseru, fel bod un pwynt adrodd bob blwyddyn. Bydd hyn yn ein galluogi i ddefnyddio dull mwy teilwredig o ran sut rydyn ni'n amseru'r gweithgareddau cymeradwyo. Byddwn yn gallu addasu'r cylch digwyddiadau tair blynedd presennol, fel y gellir newid yr amseru rhwng digwyddiadau ar sail canlyniadau ein monitro blynyddol. Gallai hyn hefyd olygu y byddai angen i ddarparwyr gyflwyno llawer llai o wybodaeth ar gyfer ailgymeradwyo a digwyddiadau interim.

Yn ein monitro blynyddol byddwn yn chwilio am ddata 'ansoddol' y gallwn ei gysylltu â gwahanol agweddau ar ein safonau. Drwy ddata ansoddol rydyn ni'n golygu data sy'n fwy na 'dim ond rhifau'. Byddwn yn gofyn i'r darparwr:

- roi sylwadau ar nifer o feysydd, megis perfformiad myfyrwyr yn yr asesiad cofrestru
- darparu diweddariadau neu wybodaeth am ddatblygiadau newydd, neu gynlluniau gweithredu, a
- rhoi gwybod i ni am unrhyw wybodaeth y credant sy'n berthnasol i'w darpariaeth addysg a hyfforddiant

Drwy edrych ar y materion hyn yn fwy rheolaidd - bob blwyddyn - byddwn ni, a darparwyr, yn gallu ystyried yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir, a sylwi ar bryderon gyda'n gilydd yn gyflymach.

## Ebrill 2024

Y meysydd rydyn ni'n bwriadu eu hystyried fel rhan o'r monitro blynyddol yw:

### Rheoli, goruchwylio a darparu addysg a hyfforddiant

I ystyried heriau ac atebion sy'n ymwneud â rheoli, goruchwylio a darparu addysg a hyfforddiant. Mae hyn yn cynnwys cyflawni deilliannau dysgu'r CFfC a gweithio gyda darparwyr eraill (er enghraifft cyrff addysg statudol).

### Newidiadau sy'n effeithio ar addysg a hyfforddiant

Ystyried a yw'r darparwr wedi profi neu'n disgwyl unrhyw newidiadau sylweddol a allai effeithio ar y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant, megis newidiadau mewn staffio, seilwaith neu adnoddau ariannol.

### Dysgu ar sail profiad a dysgu rhyngbroffesiynol

Ymchwilio i'r profiad ymarferol a'r dysgu gan broffesiynau eraill a gyflwynir drwy'r cwrs, megis presgripsiynu annibynnol ar gyfer myfyrwyr fferyllol, a'r tîm amlddisgyblaethol sy'n gweithio i dechnegwyr fferyllol dan hyfforddiant.

### Adborth gan randdeiliaid

Archwilio themâu allweddol sy'n deillio o adborth gan randdeiliaid, gan gynnwys myfyrwyr, hyfforddeion, goruchwylwyr a chleifion, a sut y cafodd adborth ei ystyried gan y darparwr.

### Sicrhau ansawdd mewnol ac allanol

Nodi deilliannau, gan gynnwys camau gweithredu ac argymhellion, prosesau sicrhau ansawdd mewnol ac allanol y rhaglen.

Gall hyn gynnwys arfarniadau annibynnol ac adroddiadau gan arholwyr allanol (megis ar gyfer graddau MPharm), yswirwyr ansawdd allanol (megis ar gyfer cyrsiau a chymwysterau technegwyr fferyllol), a gwirwyr safonau (megis ar gyfer cyrsiau a chymwysterau staff cymorth fferyllol).

### Derbyniadau a pherfformiad myfyrwyr a hyfforddeion

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant: ffocysu ar ddadansoddiadau'r darparwr o dderbyniadau myfyrwyr a hyfforddeion a data perfformiad, ac unrhyw dueddiadau sy'n effeithio ar bobl â nodweddion gwarchodedig.

### Perfformiad asesiadau cofrestru'r CFfC.

Caniatáu i ddarparwyr ystyried perfformiad eu myfyrwyr neu hyfforddeion yn asesiadau cofrestru'r CFfC a rhoi cynllun gweithredu ar waith i fynd i'r afael â phryderon am hyn.

Efallai y byddwn yn gwneud newidiadau i'r meysydd hyn o bryd i'w gilydd, yn dibynnu ar ffactorau allanol, tueddiadau a welir gennym neu unrhyw ddiwygiadau i'n safonau.

Byddem hefyd yn casglu data ychwanegol y byddem yn ei adolygu ynghyd â'r wybodaeth gan ddarparwyr.

Bydd hyn yn ein helpu i ystyried y dystiolaeth o wahanol onglau, a bydd yn ein helpu i benderfynu pryd y dylem gael y digwyddiad cymeradwyo nesaf ac a oes angen i ni weithredu yn syth ar unrhyw bryderon.  Dyma fyddai'r data ychwanegol:

### Data arolygon profiad addysg

Defnyddir yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr gan yr Office for Students (OfS), rheoleiddiwr addysg uwch yn Lloegr, i gasglu barn myfyrwyr ar ansawdd eu cyrsiau ledled y DU. Gall hyn helpu i sicrhau gwelliannau ym mhrofiad y myfyrwyr, a chefnogi atebolrwydd cyhoeddus. Yn 2022, fe wnaeth OfS hefyd dreialu fersiwn cyrsiau Ôl-radd a Addysgir o'r arolwg ar gyfer myfyrwyr ôl-radd.

Bydd data'r NSS ynghylch profiad myfyrwyr yn rhan o broses SA graddau MPharm - a rhaglenni Fferyllwyr Presgripsiynu Annibynnol os bydd y data Ôl-radd ar gael. Byddwn hefyd yn ystyried unrhyw arolygon ymhlith technegwyr fferyllol a staff cymorth fferyllol os byddant ar gael.

### Adborth gan fyfyrwyr a hyfforddeion wedi'i gasglu gan y CFfC

Rydyn ni'n casglu adborth gan fyfyrwyr a hyfforddeion mewn digwyddiadau SA gan ddefnyddio grwpiau ffocws, arolygon bach neu gyfweliadau ffôn.  Mae'r gweithgaredd hwn yn cael derbyniad da gan randdeiliaid ac yn aml mae'n rhoi cipolwg ar dystiolaeth gan ddarparwyr.

Byddwn yn dechrau arolygu myfyrwyr a hyfforddeion o bob math o ddarpariaeth addysg a hyfforddiant fferyllol a gymeradwyir gan y CFfC bob blwyddyn fel rhan o'r broses SA.  Bydd hyn yn cynnwys cyrsiau a chymwysterau technegwyr fferyllol.

### Data perfformiad asesiadau cofrestru'r CFfC

Mae'r asesiad cofrestru yn un o'r ffyrdd rydyn ni'n profi y gall fferyllwyr dan hyfforddiant ddangos eu bod yn deall sut i gymhwyso gwybodaeth yn briodol ac yn amserol i wneud penderfyniadau proffesiynol wrth ymarfer fferylliaeth. Mae hefyd yn profi gallu hyfforddeion gyda rhifau a'u gallu i gyflawni'r cyfrifiadau sydd eu hangen i ymarfer fel fferyllydd.

Mae ein safonau'n dweud, er enghraifft, bod yn rhaid defnyddio systemau a pholisïau yn y fath fodd fel bod y radd yn cael ei harfarnu ar sail tystiolaeth, a bod gwelliant parhaus o ran ei chyflawni. Felly, rydyn ni o'r farn bod perfformiad ymgeiswyr yn asesiad cofrestru'r CFfC yn arwydd o sut mae'r darparwr yn perfformio.

Byddwn yn dadansoddi'r data hwn yn rheolaidd, gan chwilio am wahaniaethau mewn perfformiad y mae angen mynd i'r afael â nhw.  Bydd hyn yn berthnasol i SA MPharm, OSPAP a darpariaeth hyfforddiant sylfaen.

### Data perfformiad asesu Oriel

Oriel yw'r llwyfan recriwtio cenedlaethol lle mae myfyrwyr MPharm ac OSPAP yn ymgeisio am hyfforddiant sylfaen. Er mwyn sicrhau lle hyfforddi, mae angen i ymgeiswyr basio asesiad o'r enw asesiad Oriel.

Mae dwy ran i'r asesiad: prawf 'barn sefyllfaol' sydd â'r nod o asesu'r priodoleddau proffesiynol a ddisgwylir gan fferyllydd dan hyfforddiant, a phapur ymarfer rhifedd sy'n asesu gallu ymgeiswyr i wneud cyfrifiadau fferyllol sylfaenol.

Byddwn yn dechrau adolygu perfformiad ymgeiswyr yn asesiadau Oriel ac yn defnyddio hyn yn ein proses SA darpariaeth addysg a hyfforddiant MPharm ac OSPAP.

### Data arall

Byddwn yn ystyried unrhyw ddata arall fel tystiolaeth. Er enghraifft, byddwn yn ystyried pryderon addysg sy'n cael eu cadarnhau yn erbyn sefydliad dyfarnu cymwysterau technegwyr fferyllol cydnabyddedig, naill ai drwy broses gwynion y CFfC neu gwynion i'r ombwdsmon.

Byddwn yn defnyddio'r data hwn yn ein proses SA pob math o ddarpariaeth addysg a hyfforddiant fferyllol a gymeradwyir gan y CFfC. Bydd hyn yn cynnwys cyrsiau a chymwysterau technegwyr fferyllol a staff cymorth fferyllol.

Rydyn ni wedi tynnu sylw at ddata perfformiad asesiadau cofrestru fel un o'r darnau pwysig o ddata ar gyfer sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr. I helpu ysgolion fferyllol unigol a chyrff addysg statudol, rydyn ni hefyd yn cynnig datblygu adroddiadau data perfformiad asesiadau cofrestru'r CFfC y byddwn yn eu rhannu â nhw'n rheolaidd. Bydd yr adroddiadau hyn yn dangos data perfformiad eu graddedigion ar gyfer pob cylch asesu. Byddant hefyd yn dweud wrth ddarparwyr unigol a oes tystiolaeth ystadegol o wahaniaethau mewn perfformiad yn yr asesiadau cofrestru. Bydd hyn yn ein helpu ni a darparwyr i benderfynu a oes angen cynllun gweithredu priodol i ddelio â pherfformiad isel.

Dyma sut olwg allai fod ar rannau allweddol yr adroddiadau hyn:

#### Adran 1

Cyflwyniad a meini prawf llwyddo

#### Adran 2

Data cryno ar berfformiad ymgeiswyr ar lefel genedlaethol

#### Adran 3

Data perfformiad cyffredinol ymgeiswyr ar lefel darparwyr

#### Adran 4

Gwahaniaethau ystadegol ym mherfformiad ymgeiswyr ar lefel darparwr

Bydd tîm Sicrhau Ansawdd y CFfC yn rheoli'r broses fonitro flynyddol. Os oes argymhelliad bod angen gweithredu, bydd adolygiad o'r camau gweithredu gan dîm Cymeradwyo neu arweinydd tîm (neu'r ddau). Byddwn yn rhoi adborth i ddarparwyr cyrsiau ar eu cyflwyniadau monitro blynyddol ynghyd â chanlyniad yr ymarfer. Fel mantais ychwanegol monitro blynyddol, rydyn ni yn disgwyl i ddarparwyr

ganfod bod angen llai o waith papur ar gyfer digwyddiadau o'i gymharu â'r fformat presennol.

Rydyn ni hefyd yn cynnig cyflwyno 'matrics pryderon' i helpu i osod lefel unrhyw bryder yn briodol. Credwn mai'r ffordd fwyaf rhesymol a chymesur o ymdrin â monitro blynyddol yw defnyddio dadansoddiad ansoddol yn seiliedig ar dystiolaeth, a barn broffesiynol, gan ddefnyddio ein matrics pryderon.

Rydyn ni wedi datblygu matrics sy'n grwpio pryderon yn seiliedig ar lefel y canlyniad maent yn ei chael ar ddarpariaeth, a pha mor gyflym y gallai gael effaith. Drwy 'canlyniad' rydyn ni yn golygu i ba raddau y gallai pryder beryglu darpariaeth addysg a hyfforddiant o ran safonau a gofynion y CFfC. Drwy 'effaith' rydyn ni yn golygu i ba raddau y gallai pryder beryglu darpariaeth addysg a hyfforddiant o ran safonau a gofynion y CFfC.

Ar sail canlyniad ac effaith, byddem yn graddio'r pryderon fel a ganlyn: Coch, Melyn, Gwyrdd a 'dim'. Byddai hyn yn diffinio a yw'r pryder yn uchel, canolig, isel, neu ddim, fel y disgrifir isod:

### Tabl 1: Graddfa pryderon

| Canlyniad | Effaith | Sgôr |
|---|---|---|
| Arwyddocaol | Ar unwaith | **Uchel (Coch)** |
| Arwyddocaol | Gydag oedi | **Canolog (Melyn)** |
| Ychydig iawn | Ar unwaith | **Canolog (Melyn)** |
| Ychydig iawn | Gydag oedi | **Isel (Gwyrdd)** |
| Dim | Dim | **Dim pryderon wedi'u nodi (dim)** |

Dyma rai enghreifftiau o sefyllfaoedd a'r lefelau tebygol o bryder y bydden ni'n cysylltu â nhw:

- *Mae canlyniad archwiliad mewnol diweddar o ysgol fferylliaeth wedi canfod tystiolaeth o wahaniaethu gweithredol yn erbyn myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig ar y radd MPharm. Byddai'r canfyddiad hwn yn debygol o gael ei ystyried yn bryder lefel uchel (effaith sylweddol – effaith ar unwaith).*
- *Mae adborth technegydd fferyllol dan hyfforddiant a gasglwyd gan y CFfC yn dangos bod oedi wedi bod wrth iddynt dderbyn adborth ar eu perfformiad, ond mae'r ymatebwyr yn fodlon bod hyn wedi'i gywiro gan y darparwr o fewn cyfnod rhesymol. Byddai'r canfyddiad hwn yn debygol o gael ei ystyried yn bryder lefel isel (ychydig iawn o effaith - effaith gydag oedi).*

Bydd unrhyw bryderon rydyn ni'n eu nodi a'u mesur gan ddefnyddio'r pryderon matrics yn cael eu hystyried ynghyd â chanlyniad a chanfyddiadau'r digwyddiad cymeradwyo diwethaf, yn ogystal â'r wybodaeth a'r dystiolaeth a gasglwyd gennym o'r digwyddiad.

## 2. Ymyrryd, uwchgyfeirio a gwneud penderfyniadau

Mae ein cynnig i gyflwyno monitro ac adolygu blynyddol yn ein proses sicrwydd ansawdd yn golygu y bydd angen gwneud penderfyniadau da, a defnyddio ffyrdd priodol o ddelio â phryderon, os yw am fod yn effeithiol.  Rydyn ni'n sylweddoli y gall pob sefyllfa fod yn wahanol ac felly hefyd y dull o ymdrin â heriau mewn addysg a hyfforddiant.  Felly, rydyn ni'n bwriadu defnyddio dull fesul achos wrth adolygu'r canlyniadau monitro blynyddol. Gydag unrhyw bryderon a ganfyddwn, byddwn yn ystyried eu canlyniad a'u heffaith ar addysg a hyfforddiant. Bydd hyn yn ein helpu i gyflawni'r deilliant mwyaf effeithiol a phriodol.

Ar ôl adolygu'r canlyniadau, bydd angen i ni sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw bryderon yn y ffyrdd mwyaf effeithiol a bod eu heffaith ar ddarpariaeth addysg a hyfforddiant mor isel â phosibl.  Rydyn ni'n bwriadu defnyddio pedair prif ffordd o wneud hyn.

Yn ffigur 5 a 6 rydyn ni'n dangos sut rydyn ni'n cynnig delio â phryderon a'r timau fydd yn gwneud hyn. Mae ffigur 5 i'r dde yn dangos ein 'gweithgareddau ymyrryd' SA arfaethedig. Mae ffigur 6 isod yn dangos y digwyddiadau SA fydd yn dilyn.

### Ffigur 5: Gweithgareddau ymyrryd SA arfaethedig



## Ffigur 6: Digwyddiadau Sicrwydd Ansawdd




O ran gwneud penderfyniadau, cynigiwn feini prawf â llinellau cyfrifoldeb clir sy'n gwneud yn fawr o wybodaeth arbenigol aelodau'r tîm Cymeradwyo. Bydd y llwybrau penderfynu yn seiliedig ar lefel y sicrwydd a gawn gan ddarparwyr ac a oes angen penodol i ymyrryd.

Bydd tîm Sicrhau Ansawdd Addysg y CFfC yn cynnal yr adolygiad cychwynnol yn y digwyddiad monitro blynyddol ac yn ystyried y dystiolaeth a gesglir drwyddo. Bydd y tîm yn chwilio am unrhyw bryderon am y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant. Os oes pryderon, bydd y tîm Sicrhau Ansawdd yn penderfynu ar y gweithgaredd ymyrryd priodol – fel gofyn am ragor o dystiolaeth. Os na fydd y pryderon yn cael eu clirio ar ôl hyn, yna byddai'r wybodaeth yn mynd at y tîm Cymeradwyo i'w hadolygu.

Byddan nhw'n penderfynu ar yr ymyrraeth neu'r ymyriadau mwyaf priodol ac yn eu cynnal, fel ymweliadau safle. Bydd hyn yn arwain at adroddiad i'r Cofrestrydd (neu'r Dirprwy Gofrestrydd) a all gynnwys argymhellion neu amodau y mae'n rhaid i'r darparwr eu bodloni.

Bydd y tîm Cymeradwyo yn ystyried a yw argymhellion ac amodau wedi'u bodloni'n llawn neu'n rhannol. Os bydd y tîm Cymeradwyo yn penderfynu nad yw'r amodau wedi'u bodloni, bydd y mater yn mynd drwy'r Cofrestrydd, i Bwyllgor Ansawdd, Perfformiad a Sicrwydd y Cyngor. Byddant yn ystyried unrhyw gamau pellach. Gall hyn gynnwys ymweliad arall gan y tîm Cymeradwyo ynghylch materion penodol neu, yn y pen draw, argymhelliad i'r Cyngor i dynnu cymeradwyaeth yn ôl.

## 3. Mwy o hyblygrwydd ar gyfer cymeradwyo ac ymyrryd

Rydyn ni'n disgwyl i'r gwaith monitro blynyddol arwain at fwy o hyblygrwydd yn ein darpariaeth SA addysg a hyfforddiant. Bydd hyn yn ein galluogi i ymyrryd os oes pryderon a gweithio gyda'r darparwyr i helpu i fynd i'r afael â'r rhain yn gyflym. Bydd hefyd yn sicrhau ein bod yn gymesur yn ein gweithgaredd, gan ffocysu adnoddau lle mae eu hangen.

Bydd digwyddiadau interim ac ailgymeradwyo a gynhelir gan ein timau Cymeradwyo yn dal i fod wrth wraidd ein prosesau SA. Mae'r rhain yn ein galluogi i gymryd golwg eang ar yr addysg a'r hyfforddiant, i gadarnhau ydy'r ddarpariaeth yn addas i gael ei chymeradwyo. Credwn hefyd ei bod yn bwysig rhoi sicrwydd i'r cyhoedd yr ymwelir â phob darparwr yn rheolaidd.

Rydyn ni am sicrhau cydbwysedd rhwng ymweliadau rheolaidd, gyda'r gallu i fod yn fwy hyblyg yn ein dull gweithredu, a mwy o ffocws ar ddarparwyr lle mae ein monitro blynyddol yn dangos bod problemau i fynd i'r afael â nhw. Felly, er ein bod yn bwriadu cadw ein cylch tair blynedd fel ein dull arferol, byddwn yn newid hyn yn dibynnu ar berfformiad y darparwr.

### Ffigur 7: Amserlen arfaethedig gweithgaredd SA




### Ffigur 8: Llinell amser gweithgaredd SA arfaethedig gyda chanlyniadau boddhaol




### Ffigur 9: Llinell amser gweithgaredd SA arfaethedig gyda rhai canlyniadau anfoddhaol (dangosir mewn coch)



Golyga hyn y bydd digwyddiadau'n cael eu cynnal yn gynt i rai darparwyr, er mwyn ymyrryd yn gynt, a bydd eraill yn cael y digwyddiadau'n hwyrach os yw eu perfformiad yn foddhaol.

Mae Ffigur 7 uchod yn dangos sut olwg fyddai ar ein gweithgareddau SA arfaethedig arferol:

Bydden ni'n dal i ddisgwyl y byddai digwyddiad bob tair blynedd, fel ar hyn o bryd. Fodd bynnag, y pwynt pwysig yw y gall amseru digwyddiadau newid ar sail monitro blynyddol boddhaol a/neu ganlyniadau ein hymyriadau. Gallai'r rhain ohirio digwyddiad interim neu ailgymeradwyo gan un neu ragor o o flynyddoedd academaidd. Mae hyn oherwydd y gallai canlyniadau boddhaol roi digon o sicrwydd i ni, a gallai hyn leihau'r angen am ddigwyddiad cymeradwyo bob tair blynedd.

Mae Ffigur 8 uchod yn dangos sut olwg fyddai ar ein gweithgareddau SA arfaethedig pan fo darparwr cwrs yn cyflawni canlyniadau monitro blynyddol boddhaol yn gyson (dangosir canlyniadau boddhaol gan saeth werdd solet yn arwain at y gweithgaredd nesaf):

Fel mantais ychwanegol, ni fyddwn yn gofyn yr un cwestiynau i ddarparwyr mewn digwyddiadau ailgymeradwyo ac interim am feysydd lle maent eisoes wedi dangos cynnydd da mewn monitro blynyddol. Y nod yw ailadrodd llai yn ein prosesau SA, a defnyddio amser digwyddiadau i helpu i ysgogi gwelliant mewn addysg a hyfforddiant.

Ond os oes canlyniadau monitro neu ymyrraeth anfoddhaol, efallai y bydd angen trefnu cyfarfodydd neu ddigwyddiadau ychwanegol, fydd fwy na thebyg ar ben yr ailgymeradwyo safonol neu ddigwyddiadau interim. Rhoddai hyn y lefel graffu angenrheidiol i weithio gyda'r darparwr a delio â'r pryderon yn gyflym.

Mae Ffigur 9 uchod yn dangos sut olwg fyddai ar ein gweithgareddau SA arfaethedig pan fydd darparwr cwrs yn cyflawni canlyniadau monitro blynyddol ac ymyrryd anfoddhaol (dangosir canlyniadau anfoddhaol gan saeth goch yn arwain at yr ymyrraeth a fyddai'n dilyn wedyn):

Pan fydd canlyniadau monitro blynyddol anfoddhaol, bydd gweithgaredd ymyrryd yn y flwyddyn academaidd ganlynol. Os yw canlyniad yr ymyrraeth yn anfoddhaol, ni fyddwn yn gohirio'r digwyddiad nesaf, oherwydd na fyddai canlyniadau anfoddhaol yn rhoi sicrwydd i ni fod safonau'n parhau i gael eu cyrraedd. Felly, ni allem gyfiawnhau gohirio'r ailgymeradwyo neu ddigwyddiad interim nesaf a gynlluniwyd.

Efallai na fydd angen ailedrych ar unrhyw feysydd sy'n dangos cynnydd da drwy fonitro blynyddol yn ystod digwyddiadau.

### Tynnu cymeradwyaeth yn ôl

Drwy ddefnyddio'r hyblygrwydd hwn a thrwy ymyrryd yn gynharach, ein nod yw sicrhau bod safonau'n cael eu cyrraedd a byddwn yn gweithio gyda darparwyr i sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw bryderon. Yn y pen draw, os na chyrhaeddir safonau, bydd ein Cyngor yn ystyried a fyddai'n iawn tynnu cymeradwyaeth yn ôl. Byddem yn ysgrifennu at y darparwr yn dweud wrthynt am y penderfyniad, gan esbonio'r rhesymau dros y penderfyniad. Yna byddai gan y darparwr yr hawl i apelio i'r Pwyllgor Apeliadau.

Os tynnwn gymeradwyaeth yn ôl, bydd ein Cyngor yn gwneud ei orau i weithio gyda'r sefydliad neu'r darparwr perthnasol i sicrhau bod myfyrwyr neu hyfforddeion yn cael cyfle i fynychu cwrs cymeradwy gan sefydliad neu ddarparwr arall.

## 4. Cymhwyso ein prosesau i holl addysg a hyfforddiant fferyllol

Mae cymwysterau technegwyr fferyllol a staff cymorth fferyllol yn cael eu cyflwyno a'u goruchwylio gan sefydliadau dyfarnu cenedlaethol. Ar hyn o bryd rydyn ni yn eu hailgymeradwyo gan ddefnyddio cylch chwe blynedd, gyda digwyddiad interim bob tair blynedd. Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer graddau Meistr Fferylliaeth (MPharm) a ddarperir gan sefydliadau addysg uwch.

Fodd bynnag, nid oes gan gyrsiau technegwyr fferyllol a staff cymorth fferyllol a ddarperir gan ddarparwyr preifat yr oruchwyliaeth ansawdd hon gan sefydliadau eraill. Felly rydyn ni'n ailgymeradwyo'r rhain gan ddefnyddio cylch tair blynedd. Mae'r trefniant ailgymeradwyo hwn hefyd yn berthnasol i raglenni fferyllwyr presgripsiynu annibynnol a'r rhaglenni OSPAP a ddarperir gan sefydliadau addysg uwch.

Drwy gyflwyno monitro blynyddol, bydd gennym fwy o oruchwyliaeth dros bob cwrs addysg a hyfforddiant fferyllol, gan gynnwys y rhai a ddarperir gan sefydliadau dyfarnu cenedlaethol a darparwyr preifat. Felly, rydyn ni yn cynnig gwneud yr un trefniadau sy'n berthnasol i sefydliadau dyfarnu cenedlaethol a darparwyr MPharm yn berthnasol hefyd i ddarparwyr preifat a darparwyr fferyllwyr presgripsiynu.

I bob pwrpas, bydd hyn yn arwain at fwy o graffu ac at ddull sicrhau ansawdd cyson.

## Beth ydyn ni'n disgwyl fydd manteision y newidiadau?

Drwy gyflwyno'r newidiadau arfaethedig i SA, rydyn ni'n disgwyl:

- cynnal lefel gymesur o oruchwyliaeth rhwng digwyddiadau interim ac ailgymeradwyo. Byddai hyn yn caniatáu newid ffocws digwyddiadau i ffwrdd o holi am agweddau cul ar gydymffurfio â safonau. Yn hytrach, bydden ni'n cael mwy o drafodaethau cydweithredol ar ddefnyddio cryfderau darparwyr i ddelio â phryderon a heriau sy'n effeithio ar eu darpariaeth
- gwella ein gallu i adnabod a delio â phryderon am ansawdd yn gyflym ac yn gymesur
- gwella ansawdd a chwmpas y dystiolaeth a ddefnyddiwn mewn digwyddiadau, a bod yn gyson yn ein dull gweithredu ymhlith pob darparwr a sefydliad dyfarnu
- cyfathrebu'n rheolaidd â darparwyr fel ein bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddarpariaeth a datblygiadau cyrsiau a chymwysterau
- lleihau faint o dystiolaeth sydd ei hangen arnom gan ddarparwyr ar gyfer digwyddiadau interim ac ailgymeradwyo, a
- gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau i ganolbwyntio ar risg, yn ein gweithgareddau sicrhau ansawdd addysg

## Pryd fydd y newidiadau'n digwydd?

Yn dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad, rydyn ni'n bwriadu datblygu'r trefniadau hyn fesul cam gyda'r gwaith monitro data yn cael ei gyflwyno rhwng 2024/25 a 2025/26.

Gallwn gyflwyno rhai agweddau ar y trefniadau cyn hynny.  Er enghraifft, rydyn ni wedi dechrau gweithio ar ddatblygu arolygon myfyrwyr a hyfforddeion ar gyfer pob math o ddarpariaeth addysg a hyfforddiant.  Bydd hyn yn ein galluogi i gael mwy o fewnbwn gan fyfyrwyr a hyfforddeion i'n prosesau ailgymeradwyo. Rydyn ni yn bwriadu treialu'r arolygon ym mlwyddyn academaidd 2024/25.

Gallwn gyflwyno rhai newidiadau ar unwaith.  Er enghraifft, gallwn anfon adroddiadau data perfformiad asesiadau cofrestru'r CFfC ddarparwyr ar gyfer graddedigion MPharm ac OSPAP.  Bydd hyn yn helpu darparwyr i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon sy'n gysylltiedig â pherfformiad.

# Cwestiynau'r ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad yn ffocysu ar yr agweddau canlynol ar ein proses arfaethedig i sicrhau ansawdd (SA) addysg a hyfforddiant gweithwyr fferyllol proffesiynol:

1. Monitro blynyddol
2. Ymyrryd, uwchgyfeirio a gwneud penderfyniadau
3. Mwy o hyblygrwydd ar gyfer cymeradwyo ac ymyrryd
4. Cymhwyso ein prosesau i holl addysg a hyfforddiant fferyllol
5. Effaith ein cynigion

Bydd cwestiynau ar bob un o'r meysydd hyn a byddwch yn cael cyfle i roi eich sylwadau.

## Adran 1: Monitro blynyddol

Rhan o'n cynnig yw gwneud gwell defnydd o'n data a chyflwyno proses fonitro flynyddol i wella sicrwydd ansawdd addysg a hyfforddiant. Bydd y data y byddwn ni'n ei ystyried fel rhan o'r monitro blynyddol yn cynnwys nifer o feysydd y byddwn yn gofyn i'r darparwr wneud sylwadau arnynt. Er enghraifft, byddwn ni'n gofyn am:

- reoli, goruchwylio a chyflwyno addysg a hyfforddiant, a
- chyflwyno dysgu drwy brofiad a rhyngbroffesiynol yn ystod y flwyddyn academaidd

Byddwn hefyd yn ystyried data o ffynonellau eraill, megis yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr ac adborth a gesglir gan y CFfC o blith myfyrwyr a hyfforddeion. Bydd y broses fonitro flynyddol yn adeiladu ar ein prosesau casglu data blynyddol presennol, a'u hamseru, fel bod un pwynt adrodd bob blwyddyn. Bydd hyn yn caniatáu dull mwy pwrpasol o amseru'r gweithgareddau cymeradwyo. Byddwn ni'n gallu addasu'r cylch digwyddiadau tair blynedd presennol, fel y gellir newid amseroedd rhwng digwyddiadau yn seiliedig ar ganlyniad monitro blynyddol. Bydd yn ein helpu ni, a'r darparwyr, i oruchwylio ansawdd y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant. Bydd hefyd yn ein helpu i adnabod a delio â phryderon yn gynnar. Y nod cyffredinol yw sicrhau cleifion a'r cyhoedd bod safonau a gofynion y CFfC ar gyfer addysg a hyfforddiant yn parhau i gael eu cyrraedd a'u bodloni.

1. **I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylen ni gyflwyno *monitro blynyddol* i helpu i bontio bylchau rhwng digwyddiadau interim ac ailgymeradwyo?**

   Cytuno'n gryf
   Cytuno
   Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
   Anghytuno
   Anghytuno'n gryf
   Ddim yn gwybod

2. **I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid ystyried y *meysydd* arfaethedig (a restrir ar dudalen 16) wrth fonitro darparwyr *pob addysg a hyfforddiant* yn flynyddol?**

   Cytuno'n gryf
   Cytuno
   Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
   Anghytuno
   Anghytuno'n gryf
   Ddim yn gwybod

3. **Yn ogystal ag ystyried y meysydd a restrir ar dudalennau 17-18, rydyn ni'n cynnig *casglu mwy o ddata*. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth fydd yn rhan o'n proses sicrwydd ansawdd ac yn rhoi darlun mwy cyffredinol i ni o'r dystiolaeth. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno, ym mhob achos, y bydd y setiau canlynol o ddata yn cryfhau sicrwydd ansawdd addysg a hyfforddiant?**

   **Adborth gan fyfyrwyr a hyfforddeion wedi'i gasglu gan y CFfC**

   Cytuno'n gryf
   Cytuno
   Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
   Anghytuno
   Anghytuno'n gryf
   Ddim yn gwybod

   **Arolygon Cenedlaethol i Fyfyrwyr (ACF), arolygon myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir a data cyfatebol ar lefel pwnc**

   Cytuno'n gryf
   Cytuno
   Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
   Anghytuno
   Anghytuno'n gryf
   Ddim yn gwybod

   **Data perfformiad asesu cofrestriadau'r CFfC (addysg a hyfforddiant fferyllol cychwynnol yn unig)**

   Cytuno'n gryf
   Cytuno
   Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
   Anghytuno
   Anghytuno'n gryf
   Ddim yn gwybod

   **Data perfformiad asesu Oriel (addysg a hyfforddiant fferyllol cychwynnol yn unig)**

   Cytuno'n gryf
   Cytuno
   Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
   Anghytuno
   Anghytuno'n gryf
   Ddim yn gwybod

   **Data arall (er enghraifft, pryderon addysg wedi'u derbyn)**

   Cytuno'n gryf
   Cytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Anghytuno
Anghytuno'n gryf
Ddim yn gwybod

4. **I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd y cynnig *Monitro Blynyddol* arfaethedig yn rhoi digon o sicrwydd ansawdd rhwng digwyddiadau interim ac ailgymeradwyo?**

   Cytuno'n gryf
   Cytuno
   Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
   Anghytuno
   Anghytuno'n gryf
   Ddim yn gwybod

5. **Rhowch eich sylwadau yn esbonio'ch atebion i'r pedwar cwestiwn uchod ynghylch ein cynigion ar gyfer monitro blynyddol.**

   Testun rhydd

## Adran 2: Ymyrryd, uwchgyfeirio a gwneud penderfyniadau

Yn rhan o'r gwaith o adolygu'r wybodaeth a gasglwn yn ystod ein monitro blynyddol, bydd angen gwneud penderfyniadau da a ffyrdd priodol o ddelio â phryderon. Felly, rydyn ni'n cynnig cyfres o bedwar gweithgaredd ymyrryd i'w cynnal gan dimau priodol (tîm Sicrhau Ansawdd y CFfC, y tîm Cymeradwyo neu'r ddau). Bydd y rhain yn ein helpu i sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw bryderon yn y ffyrdd mwyaf effeithiol a bod eu heffaith ar ddarpariaeth addysg a hyfforddiant mor isel â phosibl.

6. **Rydyn ni'n cynnig *pedwar gweithgaredd ymyrryd* i sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw bryderon yn y ffyrdd mwyaf effeithiol, er mwyn cadw eu heffaith ar ddarpariaeth addysg a hyfforddiant mor isel â phosibl. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno, ym mhob achos, y bydd yr ymyriadau canlynol yn cryfhau sicrwydd ansawdd addysg a hyfforddiant?**

   **Gofyn i'r darparwr am ragor o dystiolaeth a gwybodaeth (er enghraifft, cynlluniau gweithredu).**

   Cytuno'n gryf
   Cytuno
   Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
   Anghytuno
   Anghytuno'n gryf
   Ddim yn gwybod

   **Helpu'r darparwr gyda gweithgaredd rheoli ansawdd (er enghraifft, gosod safonau asesu)**

   Cytuno'n gryf
   Cytuno
   Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
   Anghytuno
   Anghytuno'n gryf
   Ddim yn gwybod

   **Cael cyfarfod â ffocws gyda'r darparwr (er enghraifft, sgwrs am y pryder)**

   Cytuno'n gryf
   Cytuno
   Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
   Anghytuno
   Anghytuno'n gryf
   Ddim yn gwybod

**Cynnal gweithgaredd â ffocws gyda'r darparwr (er enghraifft, ymweliad neu arsylwi addysgu)**

Cytuno'n gryf
Cytuno
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Anghytuno
Anghytuno'n gryf
Ddim yn gwybod

7. **I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y *timau* sydd wedi'u ddyrannu at bob math o weithgaredd ymyrryd yn *benderfynwyr priodol?* (Gweler ffigwr 5 ar dudalen 20)**

   Cytuno'n gryf
   Cytuno
   Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
   Anghytuno
   Anghytuno'n gryf
   Ddim yn gwybod

8. **Rhowch eich sylwadau yn egluro'ch atebion i'r ddau gwestiwn uchod am ein cynigion ynghylch ymyrraeth a gwneud penderfyniadau.**

   Testun rhydd

## Adran 3: Mwy o hyblygrwydd ar gyfer cymeradwyo ac ymyrryd

Bydd y diweddariad arfaethedig i brosesau sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ni yn y ffordd rydyn ni'n cymeradwyo darpariaeth cyrsiau. Byddwn yn gallu ymyrryd pan fyddwn yn sylwi ar bryderon, a gweithio gyda darparwyr i helpu i fynd i'r afael â'r rhain yn gyflym. Yn yr un modd, oherwydd yr hyblygrwydd bydd gennym o ran y prosesau monitro ac ymyrryd blynyddol arfaethedig, ni fyddwn bellach yn cyhoeddi 'dyddiad olaf' ar gyfer cymeradwyaeth. Yn hytrach, byddwn yn cyhoeddi dyddiad arfaethedig ar gyfer y digwyddiad interim neu ailgymeradwyo nesaf a gynllunnir.

9. **I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â gweithredu *dull hyblyg o ran amseru digwyddiadau interim ac ailgymeradwyo,* sy'n golygu na fydd y rhain yn cael eu cyfyngu i ddigwydd unwaith bob tair neu chwe blynedd?**

   Cytuno'n gryf
   Cytuno
   Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
   Anghytuno
   Anghytuno'n gryf
   Ddim yn gwybod

10. **I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â gweithredu *ymagwedd amrywiol at y cyfnodau cymeradwyo*, sy'n golygu na fydd gan statws cymeradwyo ddyddiad olaf penodol ond bydd yn dibynnu ar ganlyniad y digwyddiadau interim ac ailgymeradwyo nesaf a gynllunnir?**

    Cytuno'n gryf
    Cytuno
    Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
    Anghytuno
    Anghytuno'n gryf
    Ddim yn gwybod

11. **I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai *gweithgaredd ymyrryd SA* gael ei gyflawni yn sgil canlyniad monitro blynyddol anfoddhaol?**

    Cytuno'n gryf
    Cytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Anghytuno
Anghytuno'n gryf
Ddim yn gwybod

**12. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid cynnal *Digwyddiad SA (interim, interim, eithriadol, neu ailgymeradwyo) yn sgil c*anlyniad gweithgaredd ymyrryd SA anfoddhaol?**

Cytuno'n gryf
Cytuno
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Anghytuno
Anghytuno'n gryf
Ddim yn gwybod

**13. Rhowch eich sylwadau yn egluro'ch atebion i'r pedwar cwestiwn uchod am ein cynigion ynghylch cymeradwyaeth hyblyg a pharhaus.**

Testun rhydd

## Adran 4: Cymhwyso ein prosesau i holl addysg a hyfforddiant fferyllol

Mae cymwysterau technegwyr fferyllol a staff cymorth fferyllol yn cael eu cyflwyno a'u goruchwylio gan sefydliadau dyfarnu cenedlaethol. Ar hyn o bryd rydyn ni'n eu hailgymeradwyo gan ddefnyddio cylch chwe blynedd, gyda digwyddiad interim bob tair blynedd, fel gyda graddau Meistr Fferylliaeth (MPharm) a ddarperir gan sefydliadau addysg uwch. Fodd bynnag, nid oes gan gyrsiau technegwyr fferyllol a staff cymorth fferyllol a ddarperir gan ddarparwyr preifat yr oruchwyliaeth ansawdd hon gan sefydliadau eraill. Felly rydyn ni yn ailgymeradwyo'r rhain gan ddefnyddio cylch tair blynedd. Mae'r trefniant ailgymeradwyo hwn hefyd ar waith yn rhaglenni fferyllwyr presgripsiynu annibynnol gan sefydliadau addysg uwch. Drwy gyflwyno monitro blynyddol, bydd gennym fwy o oruchwyliaeth dros bob cwrs addysg a hyfforddiant fferyllol. Felly, cynigiwn wneud yr un trefniadau sy'n berthnasol i sefydliadau dyfarnu cenedlaethol a darparwyr MPharm yn berthnasol hefyd i ddarparwyr preifat a darparwyr fferyllwyr presgripsiynu. I bob pwrpas, bydd hyn yn arwain at fwy o graffu ac at ddull sicrhau ansawdd cyson yn gyffredinol.

**14. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i *gymhwyso ein prosesau SA* fel bod trefniadau sy'n berthnasol i sefydliadau dyfarnu cenedlaethol hefyd yn berthnasol i *darparwyr preifat cyrsiau technegwyr fferyllol a staff cymorth?***

Cytuno'n gryf
Cytuno
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Anghytuno
Anghytuno'n gryf
Ddim yn gwybod

**15. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i *gymhwyso ein prosesau SA* fel bod trefniadau sy'n berthnasol i ddarparwyr MPharm hefyd yn berthnasol i *ddarparwyr rhaglenni presgripsiynu annibynnol?***

Cytuno'n gryf
Cytuno
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Anghytuno
Anghytuno'n gryf
Ddim yn gwybod

16. **Rhowch eich sylwadau yn egluro eich ateb i'r ddau gwestiwn uchod ynglŷn â chymhwyso ein prosesau i holl addysg a hyfforddiant fferyllol.**

Testun rhydd

## Adran 5: Effaith ein cynigion

17. **Rydyn ni am ddeall yr effaith y gallai ein cynigion ei chael ar unrhyw unigolion neu grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a enwir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Y rhain yw:**

- **oedran**
- **anabledd**
- **ailbennu rhywedd**
- **priodas a phartneriaeth sifil**
- **beichiogrwydd a mamolaeth**
- **hil**
- **crefydd neu gred**
- **rhyw**
- **cyfeiriadedd rhywiol**

**Ydych chi'n credu y caiff ein cynigion effaith gadarnhaol neu negyddol ar unigolion neu grwpiau sy'n rhannu un neu rai o'r nodweddion gwarchodedig?**

Ydw - effaith gadarnhaol
Ydw - effaith negyddol
Ydw - effaith gadarnhaol a negyddol
Dim effaith
Ddim yn gwybod

18. **Rydyn ni hefyd am wybod a gaiff ein cynigion unrhyw effaith arall ar unrhyw unigolion neu grwpiau (ystyriaethau nad ydyn nhw'n ymwneud â'r nodweddion gwarchodedig) – yn benodol:**

- **myfyrwyr a hyfforddeion**
- **cleifion a'r cyhoedd**
- **darparwyr a phartneriaid addysg a hyfforddiant**
- **staff fferyllol**
- **cyflogwyr**

**Ydych chi'n credu y byddai ein cynigion yn effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar y grwpiau unigol hyn?**

Ydw - effaith gadarnhaol
Ydw - effaith negyddol
Ydw - effaith gadarnhaol a negyddol
Dim effaith
Ddim yn gwybod

19. **Rhowch sylwadau yn egluro'ch atebion i'r ddau gwestiwn uchod. Disgrifiwch yr unigolion neu'r grwpiau dan sylw a'r effaith y credwch y caiff ein cynigion arnynt.**

### Ymateb i'r ymgynghoriad

**Os gallwch, defnyddiwch yr arolwg ar-lein yn pharmacyregulation.org/consultation-quality-assurance-pharmacy-education-and-training**

**Os ydych am anfon ymateb drwy e-bost, gwnewch yn siŵr eich bod:**

- yn rhoi eich ymateb i bob un o'r 19 cwestiwn
- wrth ateb y cwestiynau 'effaith' (rhifau 17-19), dywedwch beth gredwch chi fydd yr effaith ar bob grŵp neu nodwedd rydyn ni wedi'i rhestru. Gallwch ddweud 'dim effaith' neu 'ddim yn gwybod' os oes angen

**Bydd hyn yn ein helpu i ystyried eich barn yn yr un modd â'r rhai a gasglwn o'n harolwg ar-lein.**

## Ebrill 2024

**Cyngor Fferyllol Cyffredinol**
**Un Sgwâr Cabot, Llundain E14 4QJ**
Ff **020 3713 8000**
E **info@pharmacyregulation.org**

**@TheGPHC**
**TheGPHC**
**/company/general-pharmaceutical-council**
**www.pharmacyregulation.org**